ADRODDIAD I'R:	Pwyllgor Trwyddedu
DYDDIAD:	12 Mehefin 2013
SWYDDOG ARWEINIOL:	Pennaeth Cynllunio a Diogelu'r Cyhoedd
SWYDDOG CYSWLLT:	Uwch Swyddog Trwyddedu trwyddedu@sirddinbych.gov.uk 01824 706451
TESTUN:	Gweithdrefnau ar gyfer Polisïau Newydd a Diwygiedig

1. PWRPAS YR ADRODDIAD

1.2 Er mwyn i'r Aelodau ystyried a chymeradwyo gweithdrefnau i Swyddogion eu dilyn wrth ddrafftio polisïau newydd a chyfredol.

2. CRYNODEB GWEITHREDOL

2.1 O bryd i'w gilydd, mae'n rhaid i Swyddogion ddrafftio polisïau newydd a diwygio polisïau cyfredol o fewn cylch gwaith yr Adain Drwyddedu. Mae a wnelo'r adroddiad hwn â'r gweithdrefnau arfaethedig diwygiedig ar gyfer Aelodau sy'n ystyried materion o'r fath.

3. GWYBODAETH GEFNDIROL

3.1 Mae Swyddogion yn ei gweld hi'n briodol i ofyn i Aelodau ystyried a chymeradwyo gweithdrefnau ar gyfer Swyddogion sy'n drafftio polisïau trwyddedu newydd ac yn adolygu polisïau trwyddedu cyfredol.

3.2 Ar hyn o bryd, nid oes gweithdrefnau ysgrifenedig i Swyddogion eu dilyn (ar wahân i ofynion statudol a nodwyd mewn rhai deddfwriaethau). Gall hynny arwain at fethu elfen bwysig o'r broses e.e. peidio â chynnal yr ymgynghoriad cywir neu fethu bodloni gofynion asesiad effaith ar gydraddoldeb.

3.3 Mae'r gweithdrefnau arfaethedig yn cynnwys polisïau newydd ac felly mae angen cynnal ymgynghoriad llawn, gan gynnwys sgrinio'r polisi arfaethedig yn defnyddio Pecyn Cymorth Asesu'r Effaith ar Gydraddoldeb, ynghyd â llunio adroddiad i'r Aelodau yn amlinellu'r polisi arfaethedig a chwmpas yr ymgynghoriad arfaethedig.

3.4 O ran polisïau cyfredol sydd angen diwygiadau cyffredinol, bydd Swyddogion yn trafod y diwygiadau arfaethedig, ynghyd ag unrhyw

ymgynghoriad, gydag Aelodau ac yn gofyn iddyn nhw argymell bod yr Aelod Arweiniol yn mabwysiadu'r diwygiadau.

3.5 O ran mân ddiwygiadau i bolisi cyfredol, er enghraifft diweddariadau deddfwriaethol neu ddiwygio rhan sydd bellach yn amherthnasol, cynigir y dylai Pennaeth y Gwasanaeth gymeradwyo'r diwygiadau.

3.6 Fe ddylai cymeradwyo cyfres o weithdrefnau, sy'n arwain Swyddogion drwy'r broses, leihau'r risg o bobl yn herio'r Cyngor a/neu'r polisi yn anweithredol oherwydd gwall gweinyddol. Mae copi o'r gweithdrefnau arfaethedig yn Atodiad A.

4. ARGYMHELLION

4.1 Argymhellir bod yr Aelodau yn cymeradwyo'r gweithdrefnau ar gyfer polisïau newydd a diwygiedig, fel y nodir yn Atodiad A.